# Taflen Wybodaeth

**Gorffennaf 2009**

# Ffliw Pandemig a'r Trydydd Sector [mae wedi cyrraedd, felly mae'r cyfnod cynllunio a pharatoi wedi dod i ben]

## Sut gall eich Mudiad neu'ch Grŵp ymdopi â Ffliw Moch

### Cyflwyniad

- Cyfle i ddod o hyd i wefannau, adnoddau, cysylltiadau allweddol a chanllawiau defnyddiol ar-lein ledled Cymru.
- Enghreifftiau sut y gall eich mudiad neu'ch grŵp gymryd rhan fwy gweithgar o ran paratoi i gefnogi ymatebion brys cymunedau lleol.

Bydd y daflen wybodaeth hon yn cael ei diweddaru'n rheolaidd – rhowch wybod i ni os ydych chi'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth berthnasol arall y gellid ei hychwanegu at y canllawiau hyn drwy anfon e-bost at: stimmis@wcva.org.uk

### Canllawiau sylfaenol defnyddiol ynglŷn â beth i'w wneud ar gyfer eich mudiad neu'ch grŵp

### Ffliw Pandemig - Gwybodaeth Ychwanegol ar gyfer mudiadau trydydd sector

Canllawiau clir a hawdd eu deall i fudiadau trydydd sector ar gyfer cynllunio a pharatoi ar gyfer ffliw pandemig, ac ymateb iddo. Os ydych chi'n rhedeg mudiad neu grŵp sy'n darparu gwasanaethau hanfodol, mae'n hollbwysig eich bod chi wedi paratoi ac wedi rhoi cynlluniau ar waith i sicrhau ei fod yn dal i weithio drwy bandemig. Mae'r ddogfen hon yn rhoi cymorth a chanllawiau i chi ynghylch y canlynol:

- Cam 1 – Amddiffyn eich mudiad (eich staff, eich gwirfoddolwyr a'ch grŵp cleientiaid)
- Cam 2 – Cynllunio ar gyfer parhau â'ch gweithgareddau craidd
- Cam 3 – Cynllunio er mwyn gallu ymdopi â chynnydd yn y galw am rai gwasanaethau
- Cam 4 – Cynllunio er mwyn gallu hwyluso'r ymateb i'r pandemig ac i'r gofynion newydd posibl

### Y Gêm Ffliw Pandemig

Datblygwyd y Gêm Ffliw Pandemig yn wreiddiol gan Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol Camden, gan ddefnyddio adnoddau'r GIG ac mewn partneriaeth â Chyngor Camden.

Cafodd ei dylunio fel adnodd hyfforddi ar gyfer eu staff ac i helpu rheolwyr busnesau lleol a mudiadau gwirfoddol i ddatblygu eu cynlluniau parhad busnes. Mae'r Adran Iechyd wedi addasu'r gêm ar gyfer cael ei defnyddio gan fudiadau gofal iechyd a mudiadau cysylltiedig eraill.

## Gwybodaeth am Ffliw Moch gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

Defnyddiwch y ddolen we hon i gael mynediad at wybodaeth ddefnyddiol a diweddar am y pandemig Ffliw Moch presennol. Mae'r wefan yn cynnwys deunyddiau ymgyrchu defnyddiol, megis taflenni 'Ei ddal. Ei daflu. Ei ddifa.', taflenni gwybodaeth cyffredinol am y ffliw moch a diweddariadau dyddiol am y pandemig.

## Cefnogi Eich Cymuned: Fforymau Cadernid Lleol a chyfraniad y trydydd sector

Fforymau Cadernid Lleol yw'r prif ddull ar gyfer sicrhau bod nifer o asiantaethau'n cydweithio ar lefel leol. Maen nhw'n sicrhau bod y gwaith paratoi ar gyfer argyfyngau, gan gynnwys achosion o bandemig ffliw, yn cael ei wneud mewn ffordd gydlynol ac effeithiol gan ymatebwyr lleol sy'n gweithio gyda'i gilydd.

Ceir pedwar Fforwm Cadernid Lleol rhanbarthol ledled Cymru: Gogledd Cymru, De-ddwyrain Cymru, Dyfed Powys a Gwent. Gallai'r trydydd sector, fel ymatebydd lleol, ddarparu cymorth i'r Fforymau hyn mewn amryw o ffyrdd yn ystod pandemig, yn enwedig o ran dod o hyd i gymorth gwirfoddol i helpu mewn swyddogaethau allweddol megis:

- ffrindiau ffliw
- gyrwyr
- staff mewn canolfannau gwrth-firysol
- aelodau timau ardal
- gweithwyr proffesiynol sydd wedi ymddeol

Mae cyfraniad y trydydd sector o fewn y Fforymau yn amrywio ledled Cymru, ac ar lefel awdurdodau lleol mae cyfraniad y trydydd sector hefyd yn cael ei bennu'n wahanol rhwng gwahanol ardaloedd. I gael gwybod sut y gall eich mudiad neu'ch grŵp gefnogi gwaith cynllunio a pharatoi lleol neu i gael gwybod pwy yw eich cyswllt lleol allweddol, cysylltwch â'ch Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol lleol [gweler y rhestr isod]. Neu, gallwch chi gysylltu â'r Hwylusydd Iechyd a Gofal Cymdeithasol cenedlaethol o fewn WCVA, sef Sarah Timmis: stimmis@wcva.org.uk

**WCVA Gorffennaf 2009**

## Rhestr cyfeiriadau'r Hwyluswyr Iechyd a Gofal Cymdeithasol

| | |
|---|---|
| **Conwy**<br><br>Colette Neal<br>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Conwy<br>8 Rhodfa Rivers<br>Bae Colwyn<br>Conwy<br>LL297DP<br>01492 523850<br>coletteneal@cvsc.org.uk | **Bro Morgannwg**<br><br>Margaret Reid<br>Canolfan Gwasanaethau Gwirfoddol y Fro<br>Canolfan Fenter Gymunedol y Barri<br>Heol Skomer<br>Y Barri<br>Bro Morgannwg<br>CF629DA<br>01446 741706<br>Margaret@valecvs.org.uk |
| **Wrecsam**<br><br>Julie Rigby<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam<br>21 Stryd Egerton<br>Wrecsam<br>LL111ND<br>01978 312556<br>janet.williams@avow.org/<br>julie.Rigby@avow.org | **Sir Gaerfyrddin**<br><br>Debbie Bence<br>Comisiynu a Chontractau<br>Gofal Cymdeithasol, Iechyd a Thai<br>Awdurdod Lleol Sir Caerfyrddin<br>5 Stryd Spilman<br>Caerfyrddin<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA31 1LE<br>01267 228817<br>07528767222<br>DBence@cccpartners.org.uk |
| **Merthyr Tudful**<br><br>Sharon Richards<br>Gweithredu Gwirfoddol Merthyr Tudful<br>89-90 Stryd Fawr<br>Pontmorlais<br>Merthyr Tudful<br>CF478UH<br>01685 353900<br>sharon.richards@vamt.net | **Caerdydd**<br><br>Emily Forbes<br>Gweithredu Gwirfoddol Caerdydd<br>3ydd Llawr, Tŷ Shand<br>2 Fitzalan Place<br>Heol Casnewydd<br>Caerdydd<br>CF240BE<br>029 2048 5722<br>emily.f@vacardiff.org.uk |
| **Sir Benfro**<br><br>Michelle Copeman<br>Cymdeithas Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Benfro (PAVS)<br>36-38 Stryd Fawr<br>Hwlffordd<br>Sir Benfro<br>SA612DA<br>01437 769422 / 07772 564401<br>michelle.copeman@pavs.org.uk | **Abertawe**<br><br>Amy Meredith<br>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe<br>7 Heol Walter<br>Abertawe<br>SA15NF<br>amy_meredith@scvs.org.uk |

| | |
|---|---|
| **Ceredigion**<br><br>Swydd wag<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Ceredigion<br>Y Bryn<br>Heol y Gogledd<br>Llanbedr Pont Steffan<br>Ceredigion<br>SA487AB<br>01570 424100 | **Ynys Môn**<br><br>Ann Perkins<br>Uned 5<br>Parc Diwydiannol Bryn Cefni<br>Llangefni<br>Ynys Môn<br>LL777TS<br>01248 724944<br>ann@medrwnmon.org |
| **Sir Ddinbych**<br><br>Lindsay Haveland<br>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Sir Ddinbych<br>Canolfan Naylor Leyland<br>Stryd y Ffynnon<br>Rhuthun<br>Sir Ddinbych<br>LL151AF<br>01824 702441<br>lindsay@dvsc.co.uk | **Tor-faen**<br><br>Pat Powell<br>Cynghrair Gwirfoddolwyr Tor-faen<br>Adeiladau Portland<br>Stryd Commercial<br>Pont-y-pŵl<br>Tor-faen<br>NP46JS<br>01495 767061<br>pat@torfaenvoluntaryalliance.org.uk |
| **Powys**<br><br>Trish Buchan<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Powys<br>Marlow<br>South Crescent<br>Llandrindod<br>Powys<br>LD15DH<br>01597 822191<br>trish@pavo.org.uk | **Blaenau Gwent**<br><br>Kate Thomas<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent<br>Adran Addysg<br>Pentref Siopa Parc yr Ŵyl<br>Victoria<br>Glyn Ebwy<br>Blaenau Gwent<br>NP238FP<br>01495 306602<br>Kate.thomas@gavowales.org.uk |
| **Gwynedd**<br><br>Sioned Llwyd-Larsen<br>Mantell Gwynedd<br>24/26 Stryd Fawr<br>Caernarfon<br>Gwynedd<br>LL551RH<br>01286 672626<br>SionedLarsen@mantellgwynedd.com | **Sir y Fflint**<br><br>Swydd wag<br>Cyngor Gwirfoddol Lleol Sir y Fflint<br>Uned 3<br>Parc Busnes Yr Wyddgrug<br>Ffordd Wrecsam<br>Yr Wyddgrug<br>Sir y Fflint<br>CH71XP<br>01352 744003 |

| | |
|---|---|
| **Pen-y-bont ar Ogwr**<br><br>Roxane Dacey<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr (BAVO)<br>112-113 Stryd Commercial<br>Maesteg<br>Pen-y-bont ar Ogwr<br>CF349DL<br>01656 810400<br>roxanedacey@bavo.org.uk | **Sir Fynwy**<br><br>Louise George<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent<br>Holly House<br>Llys Llancayo<br>Llancayo<br>Brynbuga<br>Sir Fynwy<br>NP151HY<br>01291 672352<br>louise.george@gavowales.org.uk |
| **Castell-nedd Port Talbot**<br><br>Tracey Roberts-Jones<br>Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Castell-nedd Port Talbot<br>Tŷ Margaret Thorne<br>17-19 Stryd Alfred<br>Castell-nedd<br>Castell-nedd Port Talbot<br>Castell-nedd Port Talbot<br>SA111EF<br>01639 631246<br>TracyR@nptcvs.org.uk | **Caerffili**<br><br>Susanne Maddax<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent<br>Unet 1A, Llawr Cyntaf, Llys Withey<br>Duffryn<br>Parc Busnes Duffryn<br>Ystrad Mynach<br>Hengoed<br>Caerffili<br>CF827RJ<br>01443 863540<br>susanne.maddax@gavowales.org.uk |
| **Rhondda Cynon Taf**<br><br>Ann Philpott<br>Interlink<br>Y Swyddfeydd Morol<br>Teras Woodland<br>Maesycoed<br>Pontypridd<br>Rhondda Cynon Taf<br>CF371DZ<br>01443 485337<br>aphilpott@interlinkrct.org.uk | **Casnewydd**<br><br>Swydd wag<br>Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent<br>Tŷ Derwen<br>Heol yr Eglwys<br>Casnewydd<br>NP197EJ<br>01633 241550 |